Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: CLA288
Ein cyf/Our ref: LF/AD/1008/13

Mr David Melding AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2013

**CLA288 – Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref yn mynegi siomedigaeth y Pwyllgor nad yw Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 ar gael yn Gymraeg.

O ran cyfieithu offerynnau cyfansawdd, nid yw Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi unrhyw gyfieithiadau ôl-weithredol Cymraeg gan nad oes ganddyn nhw rym y gyfraith. Felly, gan na fyddai gan gyfieithiad Cymraeg o Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 unrhyw safiad cyfreithiol, rwyf wedi penderfynu peidio â'i gyhoeddi.

Fel y nodwyd yn llythyr Prif Weinidog Cymru atoch chi dyddiedig 1 Tachwedd 2011, pan fydd gan Weinidogion Cymru'r hawl i wneud is-ddeddfwriaeth i Gymru, oni fydd rhesymau da dros wneud hynny, rhagdybir y bydd y pŵer yn cael ei arfer drwy offeryn sydd ar gyfer Cymru'n unig. Byddai'r offeryn hwnnw'n ddwyieithog oni fydd y meini prawf yng Nghynllun Iaith Gymraeg Gweinidogion Cymru o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan fel arall.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae llythyr Prif Weinidog Cymru hefyd yn egluro bod yna adegau pan mai'r ffordd fwyaf priodol yw llunio offeryn statudol ar sail gyfansawdd gyda'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU. Nodwyd enghraifft o hyn yn ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013. Wrth ymateb i her y Comisiwn Ewropeaidd ar drawsosod Cyfarwyddeb 2006-07 yng Nghymru a Lloegr, ystyriwyd ei bod yn briodol cynnal dull cyffredin o drawsosod yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau yr eir ati i leddfu pryderon y Comisiwn yn llawn.

**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd